Defnyddio'r Gymraeg: Uwch *B2*

2019

Tystysgrif Uwch mewn Cymraeg Ail Iaith: Defnyddio'r Gymraeg

LLYFRYN YR YMGEISYDD

Mae CBAC yn aelod llawn o ALTE (Cymdeithas i Brofwyr Ieithoedd yn Ewrop / Association of Language Testers in Europe): www.alte.org.

Mae'r cymhwyster hwn yn cyfateb yn fras i lefel B2 yn Fframwaith Cyffredin Ewrop (CEFR).

Mae help geirfa ar waelod pob tudalen.
There is vocabulary help at the bottom of each page.

cymhwyster – qualification
cyfateb yn fras – corresponds broadly

Defnyddio'r Gymraeg: Uwch

Rhagymadrodd

Mae *Defnyddio'r Gymraeg: Uwch* yn arholiad sydd wedi ei anelu'n benodol at oedolion sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith. Mae'r cymhwyster hwn yn cael ei reoleiddio gan Gymwysterau Cymru, ac ar lefel 3 yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (yr un lefel â Safon Uwch). **Nid** yw'r cymhwyster hwn yn gynwysedig yn nhariff UCAS.

Bydd CBAC yn dyfarnu tystysgrif i ymgeiswyr llwyddiannus sydd yn gallu:

- gwrando ar destunau cymhleth o fathau gwahanol, mewn cyweiriau gwahanol, gan ddeall prif bwyntiau, bwriadau a safbwyntiau'r siaradwyr ac adnabod ffeithiau arwyddocaol;
- siarad Cymraeg yn rhugl ac yn gywir wrth drafod testunau a themâu gwahanol, gan gynnwys rhaglenni, ffilmiau neu lyfrau a phynciau haniaethol cymhleth;
- ymateb ar lafar i gwestiynau treiddgar am gefndir ac am brofiad penodol yn y gorffennol yn rhugl ac yn gywir;
- crynhoi testun cymhleth ar lafar;
- siarad am bwnc llosg gan bwyso a mesur dadleuon gwahanol;
- darllen testunau cymhleth o fathau gwahanol, mewn cyweiriau gwahanol, gan gynnwys Cymraeg llenyddol a Chymraeg ffurfiol, gan ddeall prif bwyntiau, bwriadau a safbwyntiau'r awduron ac adnabod ffeithiau arwyddocaol;

anelu – to aim
cymhwyster – qualification
rheoleiddio – regulated
cynwysedig – included
tystysgrif – certificate
ymgeisydd – candidate
cywair – register
arwyddocaol – significant
haniaethol – abstract

- ysgrifennu Cymraeg yn gywir ac yn y cywair priodol, gan ddefnyddio ystod o gystrawennau a geirfa at ddibenion penodol;
- cymhwyso gwybodaeth o ramadeg y Gymraeg, gan gynnwys ffurfiau amgen, ffurfiau lluosog, priod-ddulliau, arddodiaid, cyfleoliadau, treigladau, sillafu, amserau berfau a dealltwriaeth o gyd-destun.

***

Does dim angen cymwysterau blaenorol i sefyll yr arholiad, ond mae'n ddilyniant i'r arholiad *Defnyddio'r Gymraeg: Canolradd*. Awgrymir bod ymgeiswyr yn barod i sefyll yr arholiad hwn ar ôl dilyn llyfr **Cwrs Meistroli** neu gwrs cyfatebol.

Ni chaniateir i ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf sefyll yr arholiad hwn. Ni chaniateir i ymgeiswyr sydd wedi derbyn rhan helaeth o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg sefyll yr arholiad hwn, os nad ydyn nhw wedi gadael yr ysgol ers o leiaf pum mlynedd. Ni chaniateir defnyddio geiriadur mewn unrhyw ran o'r arholiad, ac eithrio'r cyfnod paratoi ar gyfer y prawf Siarad.

---

ystod – range
cystrawen – syntax
cymhwyso – to apply
amgen – alternative
priod-ddulliau – idioms
arddodiaid – prepositions
cyfleoliadau – collocations
blaenorol – previous
cyfatebol – corresponding
ac eithrio – except

Crynodeb

Dyma gynnwys arholiad *Defnyddio'r Gymraeg: Uwch:*

1.	**Gwrando a Deall**		15%
	i.	Gwybodaeth ffeithiol	
	ii.	Profiadau personol	
	iii.	Trafodaeth	
2.	**Siarad**		
	i.	Tasgau trafod	15%
	Prawf Siarad:		30%
	i.	Erthygl	
	ii.	Hunanbortread	
	iii.	Pwnc llosg	
	iv.	Siarad o brofiad	
3.	**Darllen a Deall, a Llenwi Bylchau**		15%
	i.	Darn ffuglen	
	ii.	Llythyrau ffurfiol	
4.	**Ysgrifennu**		15%
	i.	Llythyr yn y cywair ffurfiol	
	ii.	Adolygiad neu erthygl	
5.	**Gwybodaeth o Iaith**		10%
	i.	Aralleirio	
	ii.	Dewis y ffurf gywir	
	iii.	Llenwi bylchau	

crynodeb – summary
ffuglen – fiction
aralleirio – to rephrase

1. **Gwrando** 15%

Mae 3 rhan i'r prawf hwn.

1.1 **Gwybodaeth ffeithiol**
Rhaid i chi wrando ar ddarn ffeithiol estynedig ac ateb cwestiynau'n seiliedig arno. Byddwch chi'n cael clywed y darn ddwy waith.

1.2 **Profiadau personol**
Rhaid i chi wrando ar ddarn estynedig yn sôn am brofiadau personol ac ateb cwestiynau'n seiliedig arno. Byddwch chi'n cael clywed y darn ddwy waith.

1.3 **Trafodaeth**
Rhaid i chi wrando ar drafodaeth yn mynegi barn, ac ateb cwestiynau amlddewis yn seiliedig arno. Byddwch chi'n cael clywed y darn ddwy waith.

Rhaid i chi ateb y cwestiynau yn Gymraeg yn rhannau 1.1 a 1.2. Fyddwch chi ddim yn colli marciau am gamgymeriadau sillafu ond rhaid i chi ddangos eich bod chi wedi deall y darnau. Mae gwrando ar raglenni Radio Cymru a gwylio S4C yn gyson yn help i baratoi ar gyfer y prawf hwn.

estynedig – extended
seiliedig – based
amlddewis – multiple choice

2.1 **Siarad – Tasgau Trafod** 15%

Rhaid i chi recordio dwy drafodaeth wahanol *cyn* yr arholiad â phobl sy'n siarad Cymraeg yn rhugl. Dylai'r trafodaethau bara tua 10 munud yr un.

a. Trafod unrhyw lyfr, ffilm, drama neu raglen Gymraeg
b. Trafod unrhyw agwedd ar yr iaith neu'r diwylliant Cymraeg

Gallwch chi recordio (a) gydag unrhyw siaradwr rhugl, (gan gynnwys eich tiwtor). Rhaid i chi recordio (b) gydag unrhyw siaradwr rhugl, (nid eich tiwtor).

Cyflwynwch eich hun a'r person arall ar ddechrau'r drafodaeth.
Rhaid i **chi** arwain y drafodaeth, gofyn y cwestiynau ac ymateb i beth mae'r person arall yn ei ddweud.

Bydd y marcwyr yn asesu eich gallu:

- i siarad yn gywir
- i siarad yn rhugl
- i ryngweithio â'r siaradwr rhugl

Rhaid i chi recordio'r tasgau trafod ar ffurf electronig, **mewn dwy ffeil ar wahân**, gan ddefnyddio fformat mp3.
Os dych chi ddim yn siŵr sut i wneud hyn, cysylltwch â'ch canolfan am help.

Peidiwch stopio'r trafod ac ailddechrau; dylai'r sgwrs fod yn ddi-dor.
Peidiwch sgriptio'r sgwrs ymlaen llaw; byddwch chi'n colli llawer o farciau drwy wneud hynny.

Anfonwch y tasgau trafod i'ch canolfan erbyn y dyddiad cau (gw. t.13).

---

trafodaeth – discussion
agwedd – aspect
diwylliant – culture
arwain – to lead
rhyngweithio – to interact
di-dor – uninterrupted
ymlaen llaw – before hand

2.2 **Prawf Siarad** 30%

- Byddwch chi'n cael cyfweliad llafar unigol â chyfwelydd. Fyddwch chi ddim yn nabod y cyfwelydd fel arfer.
- Bydd y prawf yn para tua 30 munud, a bydd 50 munud o gyfnod paratoi.
- Bydd hawl gyda chi i ddefnyddio geiriadur yn ystod y cyfnod paratoi, ac i ysgrifennu nodiadau ar daflen yr ymgeisydd. Gallwch fynd â thaflen yr ymgeisydd gyda chi i mewn i'r ystafell gyfweld, ond ddylech chi ddim ceisio sgriptio atebion.
- Bydd pob cyfweliad yn cael ei recordio a'i asesu'n allanol.

Mae 4 rhan i'r prawf Siarad:

i. **Erthygl** 30 marc
Byddwch chi'n cael erthygl i'w darllen yn y cyfnod paratoi. Bydd y cyfwelydd yn gofyn cwestiynau i chi i brofi a ydych chi wedi deall prif bwyntiau'r erthygl.

ii. **Hunanbortread** 20 marc
Bydd y cyfwelydd yn gofyn cwestiynau i chi am yr hunanbortread a anfonoch chi i mewn (gw. isod *).

iii. **Pwnc llosg** 30 marc
Bydd dewis o ddau bwnc llosg ar daflen yr ymgeisydd. Rhaid i chi drafod **un** o'r rhain gyda'r cyfwelydd gan bwyso a mesur dadleuon ar bob ochr.

iv. **Siarad o brofiad** 30 marc
Bydd dewis o ddau sbardun ar daflen yr ymgeisydd yn holi am brofiadau penodol, gwahanol. Rhaid i chi siarad am **un** o'r rhain.

* Rhaid i chi gyflwyno hunanbortread ysgrifenedig ymlaen llaw i'w drafod yn ystod y prawf. Rhaid anfon eich hunanbortread i'ch canolfan arholi erbyn y dyddiad cau ar fformat Word neu pdf. Gallwch chi sôn am unrhyw agwedd ar eich cefndir, e.e. gwaith, unrhyw ddiddordeb/au penodol. Peidiwch ag ysgrifennu mwy na 300 o eiriau.

---

hawl – right
allanol – external
pwyso a mesur – to weigh (the options)
sbardun – prompt
penodol – specific

Bydd y marcwyr yn asesu eich gallu:

- i siarad yn gywir
- i siarad yn rhugl
- i amrywio cystrawennau a geirfa
- i ddeall pwyntiau allweddol mewn erthygl
- i bwyso a mesur dadleuon
- i estyn ymatebion
- i gyflawni gofynion y tasgau

Bydd y marcwyr hefyd yn rhoi marc argraff ar sail y prawf Siarad yn gyfan (hyd at 10 marc). Ceir manylion am sut mae'r prawf yn cael ei asesu yn y fanyleb.

---

allweddol – key
amrywio – to vary
estyn – to extend
gofynion – requirements
argraff – impression

3. **Darllen** 15%

Mae 2 ran i'r prawf yma, sy'n para 60 munud:

i. **Ffuglen**
Rhaid i chi ddarllen darn o ffuglen Gymraeg, e.e. darn o nofel, ac ateb cwestiynau amlddewis a fydd yn profi eich bod yn deall y darn a bwriadau'r awdur.

ii. **Llythyrau yn y cywair ffurfiol**
Rhaid i chi ddarllen dau lythyr yn y cywair ffurfiol ac ateb cwestiynau a fydd yn profi eich bod yn deall y testunau a safbwyntiau'r llythyrwyr.

Rhaid i chi ateb y cwestiynau yn Gymraeg yn Rhan 3ii. Fyddwch chi ddim yn colli marciau am gamgymeriadau sillafu ond rhaid i chi ddangos eich bod wedi deall y llythyrau. Bydd darllen cylchgronau a llyfrau Cymraeg o bob math yn help wrth baratoi ar gyfer y papur hwn.

---

ffuglen – fiction
bwriad – intention
ffurfiol – formal
safbwynt – viewpoint

4. **Ysgrifennu** 15%

Mae 2 ran i'r prawf yma, sy'n para 90 munud:

i. **Llythyr yn y cywair ffurfiol**
Rhaid i chi ysgrifennu llythyr yn y cywair ffurfiol ar sail sbardunau penodol. Bydd dewis o ddwy dasg, a rhaid ysgrifennu rhwng 190 a 210 o eiriau.

ii. **Erthygl neu adolygiad**
Rhaid i chi ysgrifennu adolygiad neu erthygl ar sail sbardunau penodol. Bydd dewis o ddwy dasg, a rhaid ysgrifennu rhwng 190 a 210 o eiriau.

Ni chaniateir defnyddio geiriadur yn ystod y prawf hwn.

Bydd y marcwyr yn asesu eich gallu:

- i ysgrifennu'n gywir
- i ddefnyddio ystod o gystrawennau a geirfa
- i gyflawni gofynion y dasg

Bydd y marcwyr hefyd yn rhoi marc argraff ar sail y prawf Ysgrifennu yn gyfan. Ceir manylion am sut mae'r prawf yn cael ei asesu yn y fanyleb.

5. **Gwybodaeth o laith** 15%

Mae 3 rhan i'r prawf yma, sy'n para 60 munud:

i. **Aralleirio**
Rhaid i chi ailysgrifennu rhannau o frawddegau er mwyn profi gwybodaeth o ramadeg y Gymraeg.

ii. **Dewis y ffurf gywir**
Rhaid i chi ddewis yr ateb cywir o blith pedwar gair i lenwi bwlch mewn brawddegau ar wahân. Mae'r rhan hon yn asesu eich gallu i adnabod camgymeriadau sy'n codi'n aml ar y lefel hon.

iii. **Llenwi bylchau testun**
Rhaid i chi lenwi bylchau mewn testun. Mae'r rhan hon yn profi eich dealltwriaeth o gyd-destun a'ch gwybodaeth o ramadeg y Gymraeg.

o blith – from/out of
cyd-destun – context

Trefn y profion dros ddau ddiwrnod yr arholiad:

Dydd Mercher
9.30 – 10.30 Gwybodaeth o laith
10.30 – 12.00 Prawf Ysgrifennu
TORIAD
1.00 – 2.00 Prawf Gwrando
2.00 – 3.00 Prawf Darllen
a
Dydd Iau (bore)
Prawf Siarad
Bydd amser penodol i sefyll y prawf Siarad yn ystod y bore. Mae'r prawf ei hun yn para 30 munud. Bydd eich canolfan yn cadarnhau lleoliad yr arholiad ac amser eich prawf siarad cyn yr arholiad ei hun.

Bydd rhaid i chi ddod i ystafell aros y ganolfan 50 munud cyn amser y prawf Siarad. Dyma fydd eich cyfnod paratoi.

Graddau

Byddwch chi'n derbyn eich sgôr ar gyfer pob prawf ac yn cael gradd ar sail eich cyfanswm terfynol. Bydd y cyfanswm allan o 400. Mae'n bosib cael Rhagoriaeth neu Lwyddo (neu Fethu) yn yr arholiad hwn. I lwyddo, rhaid i chi gael 60% o'r marciau posibl fel arfer. Mae'r union ffiniau'n cael eu pennu mewn cyfarfod dyfarnu.

Canlyniadau a Thystysgrifau *(Results and Certificates)*

Bydd eich canlyniadau (ym mhob prawf) yn cael eu hanfon atoch chi tua wyth wythnos ar ôl dyddiad yr arholiad gan eich canolfan arholi. Bydd eich tystysgrif yn cael ei hanfon ar ddiwedd mis Medi.

Dyddiadau Pwysig

Dyddiad olaf cofrestru gyda'r ganolfan arholi:	22 Chwefror 2019
Dyddiad olaf i anfon y Tasgau Trafod a'r Hunanbortread i'r ganolfan arholi:	29 Ebrill 2019
Dyddiadau'r Arholiad:	**12 a 13 Mehefin 2019**

_____
cadarnhau – confirm
lleoliad – location
canlyniad – result
tystysgrif – certificate

Cofrestru

Mae ffurflen gofrestru ar y dudalen nesaf.
Rhaid i chi gofrestru'n uniongyrchol gyda'ch canolfan arholi.
Mae rhai canolfannau'n caniatáu cofrestru ar-lein.
Cysylltwch â'ch canolfan i gael gwybod a oes ffi'n daladwy.
Ni roddir ad-daliad am y ffi hwn.
Mae manylion cyswllt y canolfannau ar ddiwedd y llyfryn hwn.

Trwy ddychwelyd ffurflen hon rydych yn caniatáu i'r ganolfan drosglwyddo'r wybodaeth a nodir ar y ffurflen i CBAC, gan gynnwys gwybodaeth am unrhyw anghenion arbennig a nodir gennych, (ond **nid** eich manylion cyswllt personol). Hefyd, rydych yn caniatáu i CBAC anfon eich canlyniadau i'r ganolfan, ac yn caniatáu i'r ganolfan anfon eich canlyniadau i'r darparwr cwrs lleol (lle bo hynny'n berthnasol). Lle bo cyflogwr wedi talu ffi ymgeisydd, bydd y ganolfan yn gallu rhyddhau'r canlyniad i'r cyflogwr perthnasol.

Dewch â cherdyn adnabod ffotograffig i'r arholiad i'w ddangos i'r trefnydd.
Peidiwch â dod â ffôn symudol i'r ystafell arholi.

Mae gwybodaeth am bolisi Gwarchod Data a Pholisi Preifatrwydd CBAC ar gael yma: www.cbac.co.uk dan Amdanom ni > Gwarchod Data.

yn uniongyrchol – directly
dychwelyd – to return
caniatáu – to permit
trosglwyddo – to transfer
darparwr – provider
perthnasol – relevant
cyflogwr – employer
taladwy – payable
rhyddhau – to release
ad-daliad – refund
cerdyn adnabod ffotograffig – photographic ID

FFURFLEN GOFRESTRU

ar gyfer ***Defnyddio'r Gymraeg: Uwch*** 2019

Enw llawn: _____

Cyfeiriad: _____

_____

_____

Cod Post: _____ Dyddiad geni: _____

Rhif ffôn: _____ E-bost: _____

Gwryw: ☐ Benyw: ☐

Dw i'n cadarnhau fy mod i'n bwriadu sefyll yr arholiad Defnyddio'r Gymraeg: Uwch:

Llofnod: _____

Dyddiad: _____

Eich Dosbarth / *Your Class:*

Cod y cwrs (os yn wybyddus): _____

Ble mae'r dosbarth yn cael ei gynnal? _____

Enw eich tiwtor: _____

_____
llofnod – signature
gwybyddus – known

Canolfan

Eich canolfan arholi sy'n penderfynu ble bydd yr arholiad yn cael ei gynnal. Ni ellir gwarantu y bydd canolfan yn agos i'ch dosbarth neu'ch cartref chi. Fodd bynnag, nodwch yma le **hoffech** chi sefyll yr arholiad, (e.e. coleg lleol, tref gyfagos).

Anghenion Arbennig

Os oes unrhyw anghenion arbennig gyda chi, nodwch ar dudalen ar wahân, e.e. os ydych chi mewn cadair olwyn, yn cael trafferthion gyda'ch clyw neu'ch golwg. I gael ystyriaeth arbennig, **rhaid** anfon papur meddyg neu dystiolaeth gyfatebol gyda'r ffurflen gofrestru.

---

gwarantu – to guarantee
cyfagos – nearby
anghenion arbennig – special requirements
trafferth – difficulty
ystyriaeth – consideration
cerdyn adnabod ffotograffig – photographic ID
Ni ellir – One can not

Cysylltu / *Contact*

1. Abertawe, Nedd, Port Talbot
Dysgu Cymraeg – Ardal Bae Abertawe
Academi Hywel Teifi
Adeilad Talbot
Prifysgol Abertawe
Parc Singleton
ABERTAWE SA2 8PP

dysgucymraeg@abertawe.ac.uk
Ffôn: 01792 602070
Rhif canolfan arholi CiO: 00501

Swansea, Neath, Port Talbot
Learn Welsh – Swansea Bay Region
Academi Hywel Teifi
Talbot Building
Swansea University
Singleton Park
SWANSEA SA2 8PP

learnwelsh@swansea.ac.uk
Telephone: 01792 602070
WfA exam centre number: 00501

2. Caerdydd
Tîm Cefnogi Myfyrwyr
Ysgol y Gymraeg
Prifysgol Caerdydd
Adeilad John Percival
Rhodfa Colum
CAERDYDD CF10 3EU

myfyrwyrcymraeg@caerdydd.ac.uk
Ffôn: 029 2087 4710
Rhif canolfan arholi CiO: 00502

Cardiff
Student Support Team
School of Welsh
Cardiff University
John Percival Building
Colum Drive
CARDIFF CF10 3EU

myfyrwyrcymraeg@cardiff.ac.uk
Telephone: 029 2087 4710
WfA exam centre number: 00502

3. Ceredigion, Powys a Sir Gaerfyrddin
Dysgu Cymraeg – Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Prifysgol Aberystwyth
Adeilad Elystan Morgan
Campws Llanbadarn
ABERYSTWYTH
Ceredigion SY23 3AS

dysgucymraeg@aber.ac.uk
Ffôn: 0800 876 6975
Rhif canolfan arholi CiO: 00503

Ceredigion, Powys and Carmarthenshire
Learn Welsh – Ceredigion, Powys and Carmarthenshire
Aberystwyth University
Elystan Morgan Building
Llanbadarn Campus
ABERYSTWYTH
Ceredigion SY23 3AS

learnwelsh@aber.ac.uk
Telephone: 0800 876 6975
WfA exam centre number: 00503

4. Gogledd Orllewin Cymru
Elen Lois Williams
Dysgu Cymraeg – Gogledd Orllewin
Prifysgol Bangor
Stryd y Deon
BANGOR
Gwynedd LL57 1UT

elen.l.williams@bangor.ac.uk

North West Wales
Elen Lois Williams
Learn Welsh – North West
Bangor University
Dean Street
BANGOR
Gwynedd LL57 1UT

elen.l.williams@bangor.ac.uk

Ffôn: 01248 383690
Mae'n bosibl cofrestru ar-lein:
www.bangor.ac.uk/cio/arholiadau
Rhif canolfan arholi CiO: 00504

Telephone: 01248 383690
It's possible to register on-line:
www.bangor.ac.uk/cio/arholiadau
WfA exam centre number: 00504

5. Gwent
Dysgu Cymraeg Gwent
Coleg Gwent
Heol Blaendâr
PONT-Y-PŴL NP4 5YE

welsh@coleggwent.ac.uk
Ffôn: 01495 333710
Rhif canolfan arholi CiO: 00505

Gwent
Learn Welsh Gwent
Coleg Gwent
Blaendare Road
PONTYPOOL NP4 5YE

welsh@coleggwent.ac.uk
Telephone: 01495 333710
WfA exam centre number: 00505

6. Morgannwg
Katy Brown
Dysgu Cymraeg Morgannwg
Bloc D (Dyffryn)
Prifysgol De Cymru
Trefforest
PONTYPRIDD CF37 1DL

katy.brown@decymru.ac.uk
Ffôn: 01443 483600
Rhif canolfan arholi CiO: 00506

Glamorgan
Katy Brown
Learn Welsh Glamorgan
Block D (Dyffryn)
University of South Wales
Treforest
PONTYPRIDD CF37 1DL

katy.brown@decymru.ac.uk
Telephone: 01443 483600
WfA exam centre number: 00506

7. Sir Benfro
Siân Griffiths
Gwasanaeth Cymraeg i Oedolion Sir Benfro
Canolfan Ddysgu Gymunedol y Preseli
Ysgol y Preseli
Crymych
Sir Benfro SA41 3QH

Ffôn: 01437 770180
learnwelsh@pembrokeshire.gov.uk
Rhif canolfan arholi CiO: 00507

Pembrokeshire
Siân Griffiths
Pembrokeshire Welsh for Adults Service
Preseli Community Learning Centre
Ysgol y Preseli
Crymych
Pembrokeshire SA41 3QH

Tel: 01437 770180
learnwelsh@pembrokeshire.gov.uk
WfA exam centre number: 00507

8. Bro Morgannwg
Suzanne Condon
Dysgu Cymraeg y Fro
Canolfan Ddysgu Palmerston
Cilgant Cadog
Y BARRI CF63 2NT

Ffôn: 01446 730402

Vale of Glamorgan
Suzanne Condon
Learn Welsh the Vale
Palmerston Learning Centre
Cadoc Crescent
BARRY CF63 2NT

Tel: 01446 730402

dysgucymraeg@bromorgannwg.gov.uk
Rhif canolfan arholi CiO: 00508

learnwelsh@valeofglamorgan.gov.uk
WfA exam centre number: 00508

9. Gogledd Ddwyrain Cymru
Nia Humphreys
Cymraeg i Oedolion
Coleg Cambria
Ffordd Parc y Gelli
WRECSAM LL12 7AB

Ffôn: 01978 267596
learncymraeg@cambria.ac.uk
Rhif canolfan arholi CiO: 00509

North East Wales
Nia Humphreys
Welsh for Adults
Coleg Cambria
Grove Park Road
WREXHAM LL12 7AB

Telephone: 01978 267596
learncymraeg@cambria.ac.uk
WfA exam centre number: 00509